


CYNGOR TREF PORTHMADOG



COFNODION PWYLLGOR EIDDO A DATBLYGU 7 yh nos Fawrth Tachwedd 29ain 2022 (Gohirwyd y cyfarfod tan Ragfyr 6 2022)

Presennol :- Cynghorwyr :- Dr Melfyn Edwards, Gwilym Jones, Aled Griffith, Michael Roberts
Marian Roberts (Clerc)

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Llywelyn Rhys, cytunodd Cyng Gwilym Jones i gadeirio'r cyfarfod.
Dechreuodd drwy groesawu pawb i'r cyfarfod.

1. **Ymddiheuriadau :-** Cynghorwyr Llywelyn Rhys (Cadeirydd), Llinos Murphy
2. **Llwybrau –** Trafodwyd cytundeb torri gwair 2023-24 a chytunwyd y byddai'r Clerc yn hysbysebu yn Yr Wylan ac yn Y Ffynnon am geisiadau am dendr yn ôl yr arfer.

3. **Cae Bodawen**

Roedd y Clerc wedi rhannu gwybodaeth am y **Cynllun Coedio** cyn y cyfarfod a chafwyd diweddariad ganddi am y sefyllfa bresennol. Nodwyd bod y 3 ysgol leol wedi gorffen plannu'r coed; fod cwmni Kehoe Countryside yn y broses o scrifio'r tir ar gyfer plannu dŵl o flodau gwyllt a choed ffrwythau; fod cyflenwad arall o 20 o goed ffrwythau ar ei ffordd a bod yr offer ar gyfer y plannu eisoes wedi cyrraedd cartref y Clerc. Cytunwyd i gysylltu unwaith eto efo'r ysgolion i gynnig iddynt ddod i blannu'r coed ffrwythau. Adroddwyd fod coeden yn dioddef o Ash Dieback ar y safle a bod Kehoe Countryside wedi cytuno i'w thorri i lawr a gadael y pren i'r rhai sy'n awyddus i'w gael fel coed tân.

Roedd y Clerc wedi holi rhywun i roi amcanbris i **beintio'r offer chwarae** yn dilyn adroddiad G.L.Jones ac roedd yn dal i aros am ymateb. Ni fyddai'r gwaith peintio yn dechrau tan y gwanwyn. Gobeithir y byddai'r National Grid yn fodlon gosod offer chwarae newydd (a gwell) yn lle'r offer presennol os bydd yn rhaid iddynt eu symud o'u lleoliad wrth wneud y gwaith arfaethedig yn 2025. Trafodwyd y posibilrwydd o osod trac beicio ar safle Cae Bodawen gyda help National Grid. Clywyd fel yr oedd cynllun uchelgeisiol tebyg wedi cael ei wyntyllu yn 2017 ac nad oedd dim wedi dod ohono.

4. **Bryn Coffa – dim i'w adrodd**

5. **Cae Pawb**

Adroddwyd fod tenantiaid newydd yn rhif 46; fod Emyr Wyn Jones (mab Aneurin Jones) yn cymryd drosodd tenantiaeth rhif 33 a bod tenant rhif 19a wedi cael sgwrs efo'r Cyng Michael Roberts ac yn dweud ei fod am ddod i weithio ar y plot cyn y Nadolig. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn aros tan ar ôl y Nadolig ac yn gyrru llythyr o rybudd iddo os na fydd gwaith wedi cael ei wneud ar y safle. Bydd ganddo fis wedyn cyn y caiff llythyr i adael os na fydd y sefyllfa wedi gwella.

6. **Llochesi Bws**

Adroddwyd fod cwmni Criccieth Cleaning wedi glanhau'r llochesi unwaith ac wedi cael eu talu. Cytunwyd i gadw llygad ar y llochesi i weld os oedd gwahaniaeth. Byddant yn cael eu glanhau unwaith eto cyn mis Mawrth.

7. Cerflun Mr. Madocks

Gwyntyllwyd y syniad o gomisiynu mwy o gerfluniau o enwogion lleol gan yr un cerflunydd a luniodd gerflun Madocks. Dywedodd Cyng Gwilym Jones ei fod yn cyfarfod gyda swyddog o Gyngor Gwynedd i drafod ariannu gwelliannau i'r dref ar 14.12.22. Cytunwyd i ofyn i aelodau o'r Cyngor Tref i gysylltu â'r Cyng Gwilym Jones i basio ymlaen unrhyw awgrymiadau fel y gall eu pasio ymlaen i'r swyddog ar y 14.12.22.

8. Syniadau i ddatblygu'r dref

Eglurwyd fel yr oedd y Gwithgor Datblygu wedi cael ei uno gyda'r Is-Bwyllgor Eiddo ac mai'r Incwm Meysydd Parcio sydd wedi talu am ariannu'r tybiau blodau newydd a'r byrddau gwybodaeth am adar. Nodwyd fod y twb blodau y tu allan i siop Crefft wedi cael ei chwalu nos Sadwrn a'i fod bellach wedi ei ail-osod yn ei le. Oherwydd y perygl iddo gael ei fandaleiddio unwaith eto cytunwyd i'w symud i safle o flaen y parc.

Trafodwyd y syniad o :-

- gomisiynu mwy o fyrddau gwybodaeth gan Ffion Gwyn e.e. wrth ymyl cerflun Madocks yn egluro hanes y Cob, Boston Lodge, Chwarel Minffordd yn ogystal â lleoliadau hanesyddol eraill Porthmadog
- lunio map pwrpasol yn nodi cylchdaith o amgylch y lleoliadau yma
- y Cyngor i drefnu gosod byrddau gwybodaeth a chael asiant fel Arloesi Cymru Wledig i noddi'r mapiau / pamffledi i gydfynd â'r byrddau gwybodaeth fyddai'n cynnwys QR codes er mwyn eu rhannu allan wedyn yn y siopau lleol.

Cytunodd Cyng Aled Griffith i dynnu lluniau lleoliadau addas i'r byrddau gwybodaeth a chytunodd Cyng Gwilym Jones i holi Menter Môn/ Arloesi Cymru Wledig ynglyn â noddi'r gwaith. Bydd y Clerc yn holi Ffion Gwyn ynglyn â'r syniad

Daeth y cyfarfod i ben am 18.24

Marian Roberts (Clerc)

7.12.22